



# **Cronfa Bensiwn Dyfed**

Y Datganiad Polisi Dewisol a luniwyd  
gan Gronfa Bensiwn Dyfed yn unol â  
rheoliadau'r Cynllun Pensiwn  
Llywodraeth Leol (CPLIL).

# Contents

## **Disgresiynau Awdurdod Gweinyddu**

**Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013**

**Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol, Arbediadau a Diwygio) 2014**

**Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol**

**(Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007 (fel y'u diwygiwyd)**

**Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Gweinyddu) 2008**

**Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol) 2008**

**Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1997 (fel y'u diwygiwyd)**

**Rheoliadau Llywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Gynnar) (Iawndal Disgresiynol) (Lloegr & Chymru) 2000 (fel y'u diwygiwyd)**

**Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1995 (fel y'u diwygiwyd)**

**Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (2011 *nawm* 4)**

**Rheoliadau y Cynlluniau Pensiwn Cofrestredig (Addasu Rheolau'r Cynllun) 2011 (SI 2011/1791)**

# Disgresiynau Awdurdod Gweinyddu

## Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013

### Rheoliad 4(2)(b)

A ddylid cytuno i gytundeb derbyn gydag Ymddiriedolaeth Gofal, awdurdod cyflogi Cynllun y GIG neu'r Comisiwn Ansawdd Gofal.

#### Polisi wedi'i fabwysiadu:

Bydd pob cais yn cael ei ystyried yn ôl ei deilyngdod.

### Rheoliad 3(1A)(5) ac Atodlen 2, Rhan 3, Paragraff 1

A ddylid cytuno i gytundeb derbyn gyda chorff sy'n gwneud cais i fod yn gorff derbyn.

#### Polisi wedi'i fabwysiadu:

Bydd pob cais yn cael ei ystyried yn ôl ei deilyngdod.

### Atodlen 2, Rhan 3, Paragraff 14

A ddylid cytuno y gall cytundeb derbyn ddod yn weithredol ar ddyddiad cyn y dyddiad y caiff ei gyflawni arno.

#### Polisi wedi'i fabwysiadu:

Bydd pob cais yn cael ei ystyried yn ôl ei deilyngdod.

### Atodlen 2, Rhan 3, Paragraff 9(d)

A ddylid dod â chytundeb derbyn i ben os digwydd y canlynol:

- Ansoffedd y corff neu ddirwyn y corff i ben neu ddiddymu'r corff.
- Os bydd y corff hwnnw'n peidio â chyflawni ei rwymedigaethau o dan y cytundeb derbyn.
- Os bydd y corff hwnnw'n methu â thalu symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa cyn pen cyfnod rhesymol ar ôl cael cais i wneud hynny.

#### Polisi wedi'i fabwysiadu:

Bydd yr awdurdod gweinyddu'n arfer ei ddisgresiwn ac yn dod â'r cytundeb derbyn i ben os bydd amgylchiadau o'r fath yn codi.

### **Atodlen 2, Rhan 3, Paragraff 12(a)**

Diffinio ystyr 'a gyflogir mewn cysylltiad â'.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Diffinnir hyn fel NEB OND cyflogeion sy'n gyflogeion i'r corff sy'n cael eu trosglwyddo ac a gyflogir i ddarparu'r gwasanaeth ac a restrir yn y cytundeb derbyn.

### **Rheoliad 16(1)**

A ddylid gwrthod cais i dalu Cyfraniad Pensiwn Ychwanegol / Cyfraniad Pensiwn Ychwanegol Rhannu Costau dros gyfnod o amser pe bai'n anymarferol caniatáu cais o'r fath (e.e. os yw'r swm sy'n cael ei dalu'n fach iawn ac y gellid ei dalu fel un taliad).

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Bydd yr awdurdod gweinyddu yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun; bydd er hynny yn gyffredinol yn arfer y disgresiwn pan fo cost gweinyddu taliadau o'r fath yn uwch na'r swm cyffredinol a delir.

### **Rheoliad 16(10)**

A ddylid gwrthod cais i dalu Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol / Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol Rhannu Costau os nad yw'n fodlon bod iechyd yr aelod yn rhesymol o dda.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Bydd yr awdurdod gweinyddu'n arfer y disgresiwn hwn gan fynnu bod pob aelod o'r cynllun sy'n dewis gwneud contractau pensiwn ychwanegol yn cael archwiliad meddygol gan feddyg Cronfa Bensiwn Dyfed dim ond os yw'r aelod wedi dewis gwneud cyfraniadau dros gyfnod o amser. Ni fydd archwiliad meddygol yn ofynnol ar gyfer un cyfandaliad.

### **Rheoliad 16(10)**

A ddylid gwrthod cais i dalu Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol / Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol Rhannu Costau os nad yw'n fodlon bod iechyd yr aelod yn rhesymol o dda.

Polisi wedi'i fabwysiadu:

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw gwrthod cais i dalu Cyfraniad Pensiwn Ychwanegol / Cyfraniad Pensiwn Ychwanegol Rhannu Costau os nad yw'n fodlon bod iechyd yr aelod yn rhesymol o dda.

**Rheoliad 17(12)**

Penderfynu i bwy y caiff unrhyw arian Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol / Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol Rhannu Costau (gan gynnwys arian yswiriant bywyd) ei dalu pan fydd yr aelod yn marw.

Polisi wedi'i fabwysiadu:

Mae'r awdurdod gweinyddu yn ymrwymo i dalu unrhyw arian Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol yn ôl y cyfarwyddiadau a dderbyniwyd trwy'r ffurflen 'Mynegiant o Ddymuniad Grant Marwolaeth'. Pan mae unrhyw amheuaeth am ddilysrwydd dymuniadau'r aelod ymadawedig; pan gaiff mynegiant o ddymuniad ei herio; neu pan mae'r mynegiant o ddymuniad yn afresymol, caiff y grant marwolaeth ei ryddhau i Ysgutorion yr Ystâd.

**Rheoliad 22(3)(c)**

Ceir cadw cyfrifon pensiwn ar unrhyw ffurf y bernir ei bod yn briodol.

Polisi wedi'i fabwysiadu:

Caiff cyfrifon pensiwn eu cadw'n unol â'r Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

**Rheoliad 30(8)**

A ddylid hepgor, yn gyfan neu'n rhannol, ostyngiad actiwaraidd ar fuddion a delir ar ymddeoliad hyblyg.

Polisi wedi'i fabwysiadu:

Pan nad yw'r Cyflogwr yn bod mwyach, gall yr awdurdod gweinyddu ddefnyddio ei ddisgresiwn i benderfynu peidio caniatáu'r gostyngiad hwn neu ran ohono. Fodd bynnag, ni chaiff y disgresiwn hwn ei ddefnyddio ond lle mae achos busnes cadarn yn cyfiawnhau'r gost.

### **Rheoliad 30(8)**

A ddylid hepgor, yn gyfan neu'n rhannol, ostyngiad actiwaraid ar fuddion y mae aelod yn manteisio'n wirfoddol arnynt cyn yr oed pensiwn arferol ac eithrio oherwydd ymddeoliad hyblyg (pan mae gan yr aelod aelodaeth ar ôl 31 Mawrth 2014 yn unig).

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Pan nad yw'r Cyflogwr yn bod mwyach, gall yr awdurdod gweinyddu ddefnyddio ei ddisgresiwn i benderfynu peidio caniatu'r gostyngiad hwn neu ran ohono. Fodd bynnag, ni chaiff y disgresiwn hwn ei ddefnyddio ond lle mae achos busnes cadarn sy'n cyfiawnhau'r gost.

### **Rheoliad 32(7)**

A ddylid ymestyn y terfynau amser sy'n ofynnol i aelod roi gwybod ei fod yn dymuno tynnu buddion cyn ei oedran pensiwn arferol neu ar ymddeoliad hyblyg.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw arfer y disgresiwn hwn.

### **Rheoliad 34(1)(a)**

Penderfynu a ddylid cymudo pensiwn bach aelod o dan adran 166 Deddf Cyllid 2004 (gan gynnwys aelodau credyd pensiwn lle y mae dyddiad gweithredol y Gorchymyn Rhannu Pensiwn ar ôl 31 Mawrth 2014 a bod gan yr aelod a ddebydwyd beth aelodaeth o Gynllun 2014 ar ôl 31 Mawrth 2014).

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw arfer y disgresiwn sydd ar gael o dan Reoliad 34 i gymudo pob pensiwn bach hyd at yr uchafswm a ragnodir.

### **Rheoliad 34(1)(b)**

Penderfynu a ddylid cymudo cyfandaliad marwolaeth bach o dan adran 168 Deddf Cyllid 2004.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw arfer y disgresiwn sydd ar gael o dan Reoliad 34 i gymudo pob pensiwn bach hyd at yr uchafswm a ragnodir.

### **Rheoliad 34(1)(c)**

Penderfynu a ddylid gwneud taliad cymudo o dan reoliadau 6 (taliad yn dilyn croniant perthnasol), 11 (rheol de minimis ar gyfer cynlluniau pensiwn) neu 12 (taliadau gan gynlluniau pensiwn mwy) Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Cofrestredig (Taliadau Awdurdodedig) 2009 (ac eithrio pensiynau goroeswyr ac yn cynnwys aelodau credyd pensiwn lle y mae dyddiad gweithredol y Gorchymyn Rhannu Pensiwn ar ôl 31 Mawrth 2014 a bod gan yr aelod a ddebydwyd beth aelodaeth o Gynllun 2014 ar ôl 31 Mawrth 2014).

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw arfer y disgresiwn sydd ar gael o dan Reoliad 34 i gymudo pob pensiwn bach hyd at yr uchafswm a ragnodir.

### **Rheoliad 36(3)**

Cymeradwyo'r cynghorwyr meddygol a ddefnyddir gan gyflogwyr (ar gyfer buddion salwch).

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Mae'r awdurdod gweinyddu wedi cymeradwyo'r meddygon iechyd galwedigaethol annibynnol a benodwyd gan Gyflogwyr y Cynllun, sy'n dal y gofynion o ran annibyniaeth a chymwysterau a fynnir gan ddeddfwriaeth

### **Rheoliad 38(3)**

Penderfynu a yw buddiolwr gohiriedig yn bodloni'r meini prawf o fod yn analluog yn barhaol o wneud ei hen swydd oherwydd salwch ac nad yw'n debygol o allu cael gwaith â chyflog cyn ei oedran pensiwn arferol neu am o leiaf tair blynedd, pa un bynnag yw'r cyntaf.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Pan nad yw'r Cyflogwr yn bod mwyach, bydd yr awdurdod gweinyddu yn penderfynu cymhwysedd yn unol â rheoliadau'r LGPS a chyngor meddygol.

### **Rheoliad 38(6)**

Penderfynu a yw aelod y mae ei pensiwn salwch haen 3 wedi cael ei atal yn annhebygol o allu cyflawni gwaith â chyflog cyn ei oedran pensiwn arferol oherwydd salwch.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Pan nad yw'r Cyflogwr yn bod mwyach, bydd yr awdurdod gweinyddu yn penderfynu cymhwysedd yn unol â rheoliadau'r LGPS a chyingor meddygol.

### **Rheoliad 40(2), 43(2) & 46(2)**

Penderfynu i bwy y telir grant marwolaeth.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Mae'r awdurdod gweinyddu yn ymrwmo i dalu unrhyw arian Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol yn ôl y cyfarwyddiadau a dderbyniwyd trwy'r ffurflen 'Mynegiant o Ddymuniad Grant Marwolaeth'. Pan mae unrhyw amheuaeth am ddilysrwydd dymuniadau'r aelod ymadawedig; pan gaiff mynegiant o ddymuniad ei herio; neu pan mae'r mynegiant o ddymuniad yn afresymol, caiff y grant marwolaeth ei ryddhau i Ysgutorion yr Ystâd.

### **Rheoliad 49(1)(c)**

Penderfynu, yn niffyg dewisiad gan yr aelod, pa fudd sydd i gael ei dalu lle byddai gan yr aelod hawl i fudd o dan 2 neu fwy o reoliadau mewn perthynas â'r un cyfnod o aelodaeth o'r cynllun.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw y bydd yn talu i'r aelod (neu ei fuddiolwyr) y budd sydd â'r gwerth uchaf.

### **Rheoliad 54(1)**

A ddylid sefydlu cronfa cytundeb derbyn ar wahân.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw peidio ag arfer y disgrisiwn hwn.



### **Rheoliad 54(4)(b)**

Dyfarnu asedau sydd i'w trosglwyddo o'r brif gronfa i'r gronfa cytundeb derbyn.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw peidio ag arfer y disgrisiwn hwn.

### **Rheoliad 55: Datganiad Cydymffurfio â Threfniadau Rheoli**

Rhaid i'r polisi llywodraethu ddweud a yw'r awdurdod gweinyddu'n dirprwyo ei swyddogaeth neu ran o'i swyddogaeth mewn perthynas â chynnal cronfa bensiw i bwyllgor, is-bwyllgor neu swyddog o'r awdurdod gweinyddu ac, os yw'n dirprwyo yn y fath fodd, ddweud:

- pa mor aml y cynhelir cyfarfodydd unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor.
- y telerau, strwythur a gweithdrefnau gweithredol sy'n ymwneud â'r dirprwyo.
- a yw cynrychiolwyr awdurdodau cyflogi neu aelodau'n cael eu cynnwys ac, os ydynt, a oes ganddynt hawliau pleidleisio.

Rhaid i'r polisi ddweud hefyd:

- i ba raddau mae'r dirprwyo, neu absenoldeb dirprwyo, yn cydymffurfio â chanllawiau'r Ysgrifennydd Gwladol ac, i'r graddau nad yw'n cydymffurfio â hwy, rhoi'r rhesymau dros beidio â chydymffurfio
- y telerau, strwythur a gweithdrefnau gweithredol sy'n ymwneud â'r Bwrdd Pensiynau Lleol.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Gweler y **Datganiad Cydymffurfiaeth Llywodraethu**.

### **Rheoliad 58**

Penderfynu ar Strategaeth Gyllido i gael ei chynnwys mewn datganiad strategaeth gyllido.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Gweler y **Datganiad Strategaeth Gyllido**.

### **Rheoliad 59(1) a (2)**

A ddylid bod â strategaeth gweinyddu pensiwn ysgrifenedig ac, os felly, y materion y dylai eu cynnwys.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Gweler y **Strategaeth Gweinyddu Pensiwn**.

### **Rheoliad 61**

Rhaid i bolisi cyfathrebu amlinellu'r polisi ar ddarparu gwybodaeth a chyhoeddusrwydd i, a chyfathrebu gydag, aelodau, cynrychiolwyr aelodau, darpar aelodau a chyflogwyr y Cynllun; fformat, amllder a'r dull cyfathrebu; a hyrwyddo'r Cynllun i ddarpar aelodau a'u cyflogwyr.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Gweler y Datganiad Polisi Cyfathrebu.

### **Rheoliad 64(2ZA)**

A ddylid ymestyn y cyfnod heibio 3 mis o'r dyddiad y mae Cyflogwr yn peidio bod yn Gyflogwr Cynllun, er mwyn talu credyd ymadael.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw arfer y disgrisiwn hwn mewn amgylchiadau penodol.

### **Rheoliad 64(2A)**

A ddylid atal (trwy gyflwyno hysbysiad ataliad), am hyd at 3 blynedd, gyfrifoldeb cyflogwr i wneud taliad ymadael lle y mae'n debygol y bydd gan y cyflogwr aelodau gweithredol eto o fewn y cyfnod ataliad a nodwyd.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw arfer y disgrisiwn hwn mewn amgylchiadau penodol.

### **Rheoliad 64(4)**

A ddylid sicrhau y diwygir cyfradd gyfrannu'r cyflogwr os oes amgylchiadau sy'n ei gwneud yn debygol y bydd un o gyflogwyr y cynllun yn gadael y cynllun.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw arfer y disgrisiwn hwn ym mhob achos o'r fath.

### **Rheoliad 68(2)**

A ddylid mynnu bod unrhyw straen ar gostau'r gronfa'n cael ei dalu o flaen llaw gan yr awdurdod cyflogi, yn dilyn talu buddion o dan Rheoliad 30(6) (ymddeoliad hyblyg), Rheoliad 30(7) (diswyddo / effeithlonrwydd busnes), neu hepgor (yn gyfan neu'n rhannol) o dan Rheoliad 30(8) unrhyw ostyngiad actiwaraid a fyddai wedi cael ei weithredu fel arall yn achos y buddion mae aelod yn eu tynnu'n wirfoddol cyn ei oedran pensiwn arferol neu fuddion a dynnir ar ymddeoliad hyblyg.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw y bydd yn mynnu bod cyflogwyr yn talu'n llawn gost y straen pensiwn sy'n codi o ymddeoliadau cynnar, cyn pen cyfnod na fydd fel arfer yn fwy na thair blynedd.

### **Rheoliad 69(1)**

Penderfynu pa mor aml mae taliadau i gael eu gwneud i'r Gronfa gan gyflogwyr ac a ddylid codi ffi gweinyddu.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw arfer y disgrisiwn hwn.

### **Rheoliad 69(4)**

Penderfynu ar ffurf y wybodaeth i gyd-fynd â thaliadau i'r Gronfa, a pha mor aml y dylid ei darparu.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw arfer y disgrisiwn hwn.

### **Rheoliad 70**

A ddylid dyroddi i gyflogwr hysbysiad i adennill costau ychwanegol yr eir iddynt o ganlyniad i lefel perfformiad y cyflogwr.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw ystyried pob cais yn ôl ei deilyngdod, gan ddirprwyo unrhyw benderfyniad ynghylch costau i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

### **Rheoliad 71(1)**

A ddylid codi llog ar daliadau gan gyflogwyr sy'n hwyr.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw arfer y disgresiwn i godi llog ar gyfradd o 1% uwchben y gyfradd sylfaenol, wedi'i gompowndio'n chwarterol, mewn perthynas â chael cyfraniadau pensiwn a thaliadau buddion cyfunol yn hwyr.

### **Rheoliad 74(4)**

A ddylid ymestyn y cyfnod chwe mis er mwyn cyflwyno apêl cam un y Weithdrefn Datrys Anghydfod Mewnol.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Caniateir eithriadau o dan amgylchiadau eithriadol yn unig.

### **Rheoliad 74(6)**

Penderfynu ar weithdrefn i'r awdurdod gweinyddu ei dilyn wrth arfer ei swyddogaethau o dan gam un o'r Weithdrefn Datrys Anghydfod Mewnol a phenderfynu ar y modd y bydd y swyddogaethau hynny'n cael eu harfer.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Bydd y dyfarnwr yn penderfynu pa weithdrefn a ddilynir.

### **Rheoliad 76(4)**

Penderfynu ar weithdrefn i'r awdurdod gweinyddu ei dilyn wrth arfer ei swyddogaethau o dan gam dau o'r Weithdrefn Datrys Anghydfod Mewnol a phenderfynu ar y modd y bydd y swyddogaethau hynny'n cael eu harfer.

Polisi wedi'i fabwysiadu:

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw y caiff y swyddogaethau o dan gam dau o'r Weithdrefn Datrys Anghydfod Mewnol eu cyflawni gan y Pennaeth Gweinyddu a Chyfraith.

**Rheoliad 79(2)**

A ddylai'r awdurdod gweinyddu apelio yn erbyn penderfyniad (neu ddiffyg penderfyniad) gan gyflogwr.

Polisi wedi'i fabwysiadu:

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod.

**Rheoliad 80(1)(b)**

Rhagnodi'r wybodaeth sydd i gael ei darparu gan gyflogwyr i alluogi'r awdurdod gweinyddu i gyflawni ei swyddogaethau.

Polisi wedi'i fabwysiadu:

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw arfer y disgrisiwn hwn trwy drafod a chytuno gyda phob cyflogwr unigol.

**Rheoliad 82(2)**

A ddylid talu, yn gyfan neu'n rhannol, y swm sy'n ddyledus i'r cynrychiolwyr personol (gan gynnwys unrhyw beth sy'n daladwy i'r aelod ymadawedig adeg ei f/marwolaeth) i'r:

- cynrychiolwyr personol, neu
- unrhyw un yr ymddengys fod ganddo hawl lesiannol i'r ystâd heb angen grant profiant / llythyrau gweinyddu os yw'r taliad yn llai na'r swm a ragnodir yn a6 o Ddeddf Gweinyddiad Ystadau (Mân Daliadau) 1965.

Polisi wedi'i fabwysiadu:

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw talu'r grant marwolaeth yn unol â'r cyfarwyddiadau a geir drwy'r ffurflen 'Mynegi Dymuniad o ran Grant Marwolaeth'. Os oes unrhyw amheuaeth ynghylch dilysrwydd dymuniadau'r aelod ymadawedig; os caiff dymuniad a fynegwyd ei herio; neu os yw'r dymuniad a fynegwyd yn afresymol, rhoddir y grant marwolaeth i Ysgutorion yr Ystad.

### **Rheoliad 83**

A ddylid, os yw person (ac eithrio plentyn cymwys) yn analluog i reoli ei faterion ei hun, talu buddion pensiwn y person hwnnw, yn gyfan neu'n rhannol, i berson arall er ei fudd.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod.

### **Rheoliad 98(1)(b)**

Cytuno i daliad trosglwyddo mewn swmp.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw arfer ei ddisgresiwn a bydd yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod.

### **Rheoliad 100(6)**

Ymestyn y terfyn amser arferol i dderbyn gwerth trosglwyddo y tu hwnt i 12 mis ar ôl ymaelodi â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Ni chaniateir estyniadau ond mewn amgylchiadau eithriadol.

### **Rheoliad 100(7)**

Caniatáu trosglwyddo hawliau pensiwn i mewn i'r Gronfa.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod.

### **Rheoliad 105(2)**

Penderfynu a ddylid dirprwyo unrhyw un o swyddogaethau'r awdurdod gweinyddu o dan y Rheoliadau.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Gweler y Datganiad Cydymffurfiaeth Llywodraethu.

### **Rheoliad 106(3)**

Penderfynu a ddylid sefydlu cyd fwrdd pensiwn lleol (os yw'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cymeradwyo hynny).

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Ddim yn berthnasol.

### **Rheoliad 106(6)**

Penderfynu pa weithdrefnau sy'n berthnasol i'r bwrdd pensiwn lleol.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw arfer y disgrisiwn hwn.

### **Rheoliad 107(1)**

Penderfynu ar weithdrefnau penodi, telerau penodiad ac aelodaeth bwrdd pensiwn lleol.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw arfer y disgrisiwn hwn.

### **Atodlen 1**

Penderfynu trin plentyn (nad yw wedi cyrraedd 23 oed) fel pe bai mewn addysg neu hyfforddiant galwedigaethol yn ddi-dor er gwaethaf toriad.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw arfer y disgrisiwn sydd ar gael o dan Atodlen 1 a bydd yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod.

### **Atodlen 1**

Penderfynu ar y dystiolaeth sy'n ofynnol i ddyfarnu ynghylch dibyniaeth ariannol partner sy'n cyd-fyw ar yr aelod o'r cynllun neu gyd-ddibyniaeth ariannol partner sy'n cyd-fyw ac aelod o'r cynllun.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Bydd yr awdurdod gweinyddu, ar farwolaeth yr aelod, yn gofyn am dystiolaeth, fel y'i diffinnir yn y rheoliadau.

## **Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol, Arbediadau a Diwygio) 2014**

### **Rheoliad 10(9)**

Lle y mae nifer o gyflogaethau parhaus, os na wnaeth yr aelod ddewis o fewn 12 mis i adael cyflogaeth gydredol, penderfynu i ba gofnod y dylid cyfuno'r buddion o'r gyflogaeth gydredol y rhoddwyd y gorau iddi.

### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw y bydd yn cyfuno'r gyflogaeth gydredol y rhoddwyd y gorau iddi gyda'r gyflogaeth barhaus a fydd er budd pennaf yr aelod.

### **Atodlen 2, Paragraff 1(2) a 1(1)(C)**

A ddylid 'troi ymlaen' y rheol 85 mlynedd ar gyfer aelod sy'n tynnu buddion yn wirfoddol yn 55 oed neu ar ôl hynny a chyn 60 oed heblaw ar sail ymddeoliad hyblyg.

### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Pan nad yw'r Cyflogwr yn bod mwyach, bydd yr awdurdod gweinyddu yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun ac ni all ond gytuno pan fo achos busnes cadarn yn cyfiawnhau'r gost.



### **Rheoliad 3(1) ac Atodlen 2, Rhan 2, Paragraff 2(1)**

A ddylid hepgor unrhyw ostyngiad actiwaraidd ar gyfer aelod sy'n manteisio'n wirfoddol ar fuddion cyn yr oed pensiwn arferol ac eithrio oherwydd ymddeoliad hyblyg (pan mae gan yr aelod aelodaeth cyn 1 Ebrill 2014 ac ar ôl 31 Mawrth 2014):

- a) am resymau tosturiol (aelodaeth cyn 1 Ebrill 2014) ac / neu, yn gyfan neu'n rhannol ar unrhyw sail (aelodaeth ar ôl 31 Mawrth 2014) os nad oedd yr aelod yn y Cynllun cyn 1 Hydref 2006;
- b) am resymau tosturiol (aelodaeth cyn 1 Ebrill 2014) ac / neu, yn gyfan neu'n rhannol ar unrhyw sail (aelodaeth ar ôl 31 Mawrth 2014) os oedd yr aelod yn y Cynllun cyn 1 Hydref 2006, na fydd yn 60 erbyn 31 Mawrth 2016 ac na fydd yn 60 rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2020 yn gynhwysol;
- c) am resymau tosturiol (aelodaeth cyn 1 Ebrill 2016) ac / neu, yn gyfan neu'n rhannol ar unrhyw sail (aelodaeth ar ôl 31 Mawrth 2016) os oedd yr aelod yn y Cynllun cyn 1 Hydref 2006 ac y bydd yn 60 erbyn 31 Mawrth 2016;
- d) am resymau tosturiol (aelodaeth cyn 1 Ebrill 2020) ac / neu, yn gyfan neu'n rhannol ar unrhyw sail (aelodaeth ar ôl 31 Mawrth 2020) os oedd yr aelod yn y Cynllun cyn 1 Hydref 2006, na fydd yn 60 erbyn 31 Mawrth 2016 ac y bydd yn 60 rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2020 yn gynhwysol.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Pan nad yw'r Cyflogwr yn bod mwyach, gall yr awdurdod gweinyddu ddefnyddio ei ddisgresiwn i benderfynu peidio caniatáu'r gostyngiad hwn neu ran ohono. Fodd bynnag, ni chaiff y disgresiwn hwn ei ddefnyddio ond lle mae achos busnes cadarn yn cyfiawnhau'r gost.

### **Atodlen 2, Paragraff 2(3)**

A ddylid mynnu fod unrhyw straen ar gostau'r Gronfa yn cael eu talu "ymlaen llaw" gan awdurdod cyflogi os yw'r awdurdod cyflogi yn "gweithredu'r" rheol 85 mlynedd ar gyfer aelod sy'n ymddeol yn wirfoddol (ac eithrio ymddeoliad hyblyg) cyn 60 oed, neu'n hepgor gostyngiad actiwaraidd am resymau tosturiol o dan Atodlen 2, paragraff 2(1).

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw y bydd yn mynnu bod cyflogwyr yn talu'n llawn gost y straen pensiwn sy'n codi o ymddeoliadau cynnar, cyn pen cyfnod na fydd fel arfer yn fwy na thair blynedd.

### **Rheoliad 12(6)**

A ddylid defnyddio tystysgrif a gynhyrchwyd gan ymarferydd meddygol cofrestredig annibynnol o dan Gynllun 2008 at ddibenion gwneud dyfarniad ynghylch salwch o dan Gynllun 2014.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Bydd yr awdurdod gweinyddu'n arfer ei ddisgresiwn os yw'r cyflogwr wedi darfod amdano.

### **Rheoliad 17(5) i (8)**

Penderfynu i bwy y telir grant marwolaeth.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Mae'r awdurdod gweinyddu yn ymrwmo i dalu unrhyw arian Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol yn ôl y cyfarwyddiadau a dderbyniwyd trwy'r ffurflen 'Mynegiant o Ddymuniad Grant Marwolaeth'. Pan mae unrhyw amheuaeth am ddilysrwydd dymuniadau'r aelod ymadawedig; pan gaiff mynegiant o ddymuniad ei herio; neu pan mae'r mynegiant o ddymuniad yn afresymol, caiff y grant marwolaeth ei ryddhau i Ysgutorion yr Ystâd.

### **Rheoliad 22(2)**

A ddylid dyroddi i gyflogwr hysbysiad i adennill costau ychwanegol yr eir iddynt o ganlyniad i lefel perfformiad y cyflogwr.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw ystyried pob cais yn ôl ei deilyngdod, gan ddirprwyo unrhyw benderfyniad ynghylch costau i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

### **Rheoliad 22(1) a 23**

Rhagnodi'r wybodaeth sydd i gael ei darparu gan gyflogwyr i alluogi'r awdurdod gweinyddu i gyflawni ei swyddogaethau.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw arfer y disgresiwn hwn trwy drafod a chytuno gyda phob cyflogwr unigol.

**Rheoliad 3(6), 4(6)(c), 8(4), 10(2)(a) a 17(2)(b)**

Os yw aelod y mae Rheoliad 10 o dan Rheoliadau Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau 2007 yn berthnasol iddo (defnyddio cyfartaledd tâl 3 blynedd at ddibenion tâl terfynol) yn marw cyn gwneud dewisiad, a ddylid gwneud y dewisiad hwnnw ar ran yr aelod ymadawedig.

**Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Bydd yr awdurdod gweinyddu'n arfer ei ddisgresiwn ar ran yr aelod ymadawedig.

**Rheoliad 3(6), 4(6)(c), 8(4), 10(2)(a) a 17 (2)(b)**

Gwneud dewisiad ar ran aelod ymadawedig â thystysgrif gwarchodaeth buddion pensiwn h.y. dyfarnu'r ffigur tâl gorau i'w ddefnyddio wrth gyfrifo buddion (toriadau / cyfyngiadau tâl a ddigwyddodd cyn 1).

**Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Bydd yr awdurdod gweinyddu'n arfer ei ddisgresiwn ar ran yr aelod ymadawedig.

**Rheoliad 17(9)(a)**

Penderfynu trin plentyn (nad yw wedi cyrraedd 23 oed) fel pe bai mewn addysg neu hyfforddiant galwedigaethol yn ddi-dor er gwaethaf toriad.

**Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw arfer y disgresiwn sydd ar gael o dan Atodlen 1 a bydd yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod.

**Rheoliad 17(9)(b)**

Penderfynu ar y dystiolaeth sy'n ofynnol i ddyfarnu ynghylch dibyniaeth ariannol partner sy'n cyd-fyw ar yr aelod o'r cynllun neu gyd-ddibyniaeth ariannol partner sy'n cyd-fyw ac aelod o'r cynllun.

**Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Bydd yr awdurdod gweinyddu, ar farwolaeth yr aelod, yn gofyn am dystiolaeth, fel y'i diffinnir yn y rheoliadau.

### **Rheoliad 3(13)**

Penderfynu ar bolisi ar leihau pensiynau yn dilyn ailgyflogi.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu oedd peidio â gweithredu lleihau o 1 Hydref 2006. Fodd bynnag, o ganlyniad i ddeddfwriaeth diwygio, caiff adolygiadau lleihau eu hailgyflwyno pan fo terfynu'n deillio o ymddeoliad salwch Haen 1 neu Haen 2.

### **Rheoliad 15(1)(c)**

Ymestyn y cyfnod amser ar gyfer cyfalafu contract blynyddoedd ychwanegol lle y mae'r aelod yn gadael ei g/chyflogaeth oherwydd diswyddiad.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw arfer y disgrisiwn i farnu bod dewisiadau i gyfalafu contractau blynyddoedd a ychwanegwyd wedi cael eu gwneud ar y dyddiad ymddeol, os yw er budd yr aelod dan sylw.

### **Rheoliad 23**

A ddylid ymestyn y cyfnod chwe mis er mwyn cyflwyno apêl cam un y Weithdrefn Datrys Anghydfod Mewnol.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Bydd yr awdurdod gweinyddu yn caniatáu eithriadau o dan amgylchiadau eithriadol yn unig.

### **Rheoliad 23**

Penderfynu ar weithdrefn i'r awdurdod gweinyddu ei dilyn wrth arfer ei swyddogaethau o dan gam un o'r Weithdrefn Datrys Anghydfod Mewnol a phenderfynu ar y modd y bydd y swyddogaethau hynny'n cael eu harfer.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Bydd y dyfarnwr yn penderfynu pa weithdrefn a ddilynnir.

### **Rheoliad 23**

Penderfynu ar weithdrefn i'r awdurdod gweinyddu ei dilyn wrth arfer ei swyddogaethau o dan gam dau o'r Weithdrefn Datrys Anghydfod Mewnol a phenderfynu ar y modd y bydd y swyddogaethau hynny'n cael eu harfer.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw y caiff y swyddogaethau o dan gam dau o'r Weithdrefn Datrys Anghydfod Mewnol eu cyflawni gan y Pennaeth Gweinyddu a Chyfraith.

### **Rheoliad 23**

A ddylai'r awdurdod gweinyddu apelio yn erbyn penderfyniad (neu ddiffyg penderfyniad) gan gyflogwr.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod.

## **Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007 (fel y'u diwygiwyd)**

### **Rheoliad 10(2)**

Os yw aelod y mae Rheoliad 10 o dan Reoliadau Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau 2007 yn berthnasol iddo (defnyddio cyfartaledd tâl 3 blynedd at ddibenion tâl terfynol) yn marw cyn gwneud dewisiad, a ddylid gwneud y dewisiad hwnnw ar ran yr aelod ymadawedig.

### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Bydd yr awdurdod gweinyddu'n arfer ei ddisgresiwn ar ran yr aelod ymadawedig.

### **Rheoliad 27(5)**

A ddylid talu pensiwn plentyn, yn gyfan neu'n rhannol, i berson arall er budd y plentyn hwnnw.

### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw arfer ei ddisgresiwn a bydd yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod.

### **Rheoliad 30(5)**

A ddylid hepgor, am resymau tosturiol, y gostyngiad actiwaraid a weithredir yn achos buddion gohiriedig a delir yn gynnar o dan Reoliad 30 o Reoliadau Buddion, Aelodau a Chyfraniadau 2007 (aelod).

### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Pan nad yw'r Cyflogwr yn bod mwyach, gall yr awdurdod gweinyddu ddefnyddio ei ddisgresiwn i benderfynu peidio caniatu'r gostyngiad hwn neu ran ohono. Fodd bynnag, ni chaiff y disgresiwn hwn ei ddefnyddio ond lle mae achos busnes cadarn yn cyfiawnhau'r gost.

### **Rheoliad 30A(5)**

A ddylid hepgor, am resymau tosturiol, y gostyngiad actiwaraidd a weithredir yn achos buddion a delir yn gynnar o dan Reoliad 30A o Reoliadau Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau 2007 (aelod â budd-daliadau gohiriedig).

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Pan nad yw'r Cyflogwr yn bod mwyach, gall yr awdurdod gweinyddu ddefnyddio ei ddisgresiwn i benderfynu peidio caniatáu'r gostyngiad hwn neu ran ohono. Fodd bynnag, ni chaiff y disgresiwn hwn ei ddefnyddio ond lle mae achos busnes cadarn yn cyfiawnhau'r gost.

### **Rheoliad 31(4)**

Penderfynu a yw buddiolwr gohiriedig yn bodloni'r meini prawf o ran salwch parhaol a thebygolrwydd llai o gael gwaith â chyflog.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Pan nad yw'r Cyflogwr yn bod mwyach, bydd yr awdurdod gweinyddu yn penderfynu cymhwysedd yn unol â rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a chyngor meddygol.

### **Rheoliad 31(7)**

Penderfynu a yw aelod y mae ei bensiwn salwch haen 3 wedi cael ei atal yn analluog yn barhaol i gael unrhyw waith â chyflog.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Pan nad yw'r Cyflogwr yn bod mwyach, bydd yr awdurdod gweinyddu yn penderfynu cymhwysedd yn unol â rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a chyngor meddygol.

### **Rheoliad 23(2), 32(2) a 35(2)**

Penderfynu i bwy y telir grant marwolaeth.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Mae'r awdurdod gweinyddu yn ymrwymo i dalu unrhyw arian Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol yn ôl y cyfarwyddiadau a dderbyniwyd trwy'r ffurflen 'Mynegiant o Ddymuniad Grant Marwolaeth'. Pan mae unrhyw amheuaeth am ddilysrwydd dymuniadau'r aelod ymadawedig; pan gaiff mynegiant o ddymuniad ei herio; neu pan mae'r mynegiant o ddymuniad yn afresymol, caiff y grant marwolaeth ei ryddhau i Ysgutorion yr Ystad.

## **Rheoliad 25**

Penderfynu ar y dystiolaeth sy'n ofynnol i ddyfarnu ynghylch dibyniaeth ariannol partner sy'n cyd-fyw ar yr aelod o'r cynllun neu gyd-ddibyniaeth ariannol partner sy'n cyd-fyw ac aelod o'r cynllun.

### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Bydd yr awdurdod gweinyddu, ar farwolaeth yr aelod, yn gofyn am dystiolaeth, fel y'i diffinnir yn y rheoliadau.

## **Rheoliad 39(1)(a)**

Penderfynu a ddylid cymudo pensiwn bach aelod o dan adran 166 Deddf Cyllid 2004.

### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw arfer y disgresiwn sydd ar gael o dan Reoliad 39 i gymudo pob pensiwn bach hyd at yr uchafswm a ragnodir.

## **Rheoliad 39(1)(b)**

Penderfynu a ddylid cymudo budd cyfandaliad marwolaeth bach o dan adran 168 Deddf Cyllid 2004.

### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw arfer y disgresiwn sydd ar gael o dan Reoliad 39 i gymudo pob pensiwn bach hyd at yr uchafswm a ragnodir.

## **Rheoliad 39(1)(c)**

Penderfynu a ddylid gwneud taliad cymudo o dan reoliadau 6 (taliad yn dilyn croniant perthnasol), 11 (rheol de minimis ar gyfer cynlluniau pensiwn) neu 12 (taliadau gan gynlluniau pensiwn mwy) Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Cofrestredig (Taliadau Awdurdodedig) 2009 (ac eithrio pensiynau goroeswyr ac yn cynnwys aelodau credyd pensiwn).

### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw arfer y disgresiwn sydd ar gael o dan Reoliad 39 i gymudo pob pensiwn bach hyd at yr uchafswm a ragnodir.



### **Rheoliad 42(1)(C)**

Penderfynu, yn niffyg dewisiad gan yr aelod, pa fudd sydd i gael ei dalu lle byddai gan yr aelod hawl i fudd o dan 2 neu fwy o reoliadau mewn perthynas â'r un cyfnod o aelodaeth o'r cynllun.

### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw y bydd yn talu i'r aelod (neu ei fuddiolwyr) y budd sydd â'r gwerth uchaf.

## Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Gweinyddu) 2008

### Rheoliad 45(3)

Gellir adennill cyfraniadau cyflogai sy'n ddyledus fel dyled syml neu drwy eu didynnu o fuddion.

### Polisi wedi'i fabwysiadu:

Mae'r awdurdod gweinyddu yn ymrwymo i drin symiau o'r fath yn ddyledion syml a dalwyd trwy Anfoneb ar gyfer aelodau gweithredol. Fodd bynnag, ar gyfer aelodau y mae ganddynt hawl i dderbyn buddion yn syth, cymerir ôl-ddyledion allan o fuddion pensiwn.

### Rheoliad 52(2)

A ddylid talu, yn gyfan neu'n rhannol, y swm sy'n ddyledus i'r cynrychiolwyr personol (gan gynnwys unrhyw beth sy'n daladwy i'r aelod ymadawedig adeg ei f/marwolaeth) i'r:

- cynrychiolwyr personol, neu
- unrhyw un yr ymddengys fod ganddo hawl lesiannol i'r ystâd heb angen grant profiant / llythyrau gweinyddu os yw'r taliad yn llai na'r swm a ragnodir yn a6 o Ddeddf Gweinyddiad Ystadau (Mân Daliadau) 1965.

### Polisi wedi'i fabwysiadu:

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw talu'r grant marwolaeth yn unol â'r cyfarwyddiadau a geir drwy'r ffurflen 'Mynegi Dymuniad o ran Grant Marwolaeth'. Os oes unrhyw amheuaeth ynghylch dilysrwydd dymuniadau'r aelod ymadawedig; os caiff dymuniad a fynegwyd ei herio; neu os yw'r dymuniad a fynegwyd yn afresymol, rhoddir y grant marwolaeth i Ysgutorion yr Ystad.

### **Rheoliad 52A**

A ddylid, os yw person (ac eithrio plentyn cymwys) yn analluog i reoli ei faterion ei hun, talu buddion pensiwn y person hwnnw, yn gyfan neu'n rhannol, i berson arall er ei fudd.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod.

### **Rheoliad 56(2)**

Cymeradwyo'r cynghorwyr meddygol a ddefnyddir gan gyflogwyr (ar gyfer talu'n gynnar, ar sail salwch, budd gohiriedig neu bensiwn salwch Haen 3 wedi'i atal).

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Mae'r awdurdod gweinyddu wedi cymeradwyo'r meddygon iechyd galwedigaethol annibynnol a benodwyd gan Gyflogwyr y Cynllun, sy'n dal y gofynion o ran annibyniaeth a chymwysterau a fynnir gan ddeddfwriaeth

### **Rheoliad 70(1) & 71(4)(c)**

Penderfynu ar bolisi ar leihau yn dilyn ailgyflogi.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw peidio â gweithredu lleihau o 1 Hydref 2006. Fodd bynnag, o ganlyniad i ddeddfwriaeth diwygio, caiff adolygiadau lleihau eu hailgyflwyno pan fo terfynu'n deillio o ymddeoliad salwch Haen 1 neu Haen 2.

## **Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol) 2008**

### **Atodlen 1**

Ymestyn y cyfnod o amser i gyfalafu contract blynyddoedd a ychwanegwyd.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw arfer y disgresiwn i farnu bod dewisiadau i gyfalafu contractau blynyddoedd a ychwanegwyd wedi cael eu gwneud ar y dyddiad ymddeol, os yw er budd yr aelod dan sylw.

### **Atodlen 1**

Penderfynu i bwy y telir grant marwolaeth.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Mae'r awdurdod gweinyddu yn ymrwmo i dalu unrhyw arian Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol yn ôl y cyfarwyddiadau a dderbyniwyd trwy'r ffurflen 'Mynegiant o Ddymuniad Grant Marwolaeth'. Pan mae unrhyw amheuaeth am ddilysrwydd dymuniadau'r aelod ymadawedig; pan gaiff mynegiant o ddymuniad ei herio; neu pan mae'r mynegiant o ddymuniad yn afresymol, caiff y grant marwolaeth ei ryddhau i Ysgutorion yr Ystâd.

### **Atodlen 1**

Gwneud dewisiad ar ran aelod ymadawedig â thystysgrif gwarchodaeth buddion pensiwn h.y. dyfarnu'r ffigur tâl gorau i'w ddefnyddio wrth gyfrifo buddion (toriadau / cyfyngiadau tâl a ddigwyddodd cyn 1 Ebrill 2008).

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Bydd yr awdurdod gweinyddu'n arfer ei ddisgresiwn ar ran yr aelod ymadawedig.

### **Rheoliad 14(3)**

Penderfynu a ddylid cymudo pensiwn aelod bach o dan adran 166 Deddf Cyllid 2004.

### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw arfer y disgresiwn sydd ar gael o dan Rheoliad 14 i gymudo pob pensiwn bach hyd at yr uchafswm a ragnodir.

## **Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1997 (fel y'u diwygiwyd)**

### **Rheoliad 12(5):**

Pa mor aml y telir cyfraniadau cynghorwyr.

### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Bydd yr awdurdod gweinyddu'n mynnu bod cyfraniadau pensiwn aelodau'r cynllun yn cael eu didynnu yn unol â'r adegau y telir eu cyflog.

### **Atodlen 1, Rheoliad 17(4)(7)(8) & 89(4)**

Ymestyn y cyfnod arferol o 12 mis yn dilyn diwedd seibiant lluoedd wrth gefn perthnasol i "Hysbysiad dileu" gael ei gyflwyno gan aelod cynghorydd yn gofyn na ddylid trin y gwasanaeth fel gwasanaeth perthnasol yn y lluoedd wrth gefn.

### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Bydd yr awdurdod gweinyddu yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod.

### **Rheoliad 38(1) & 155(4)**

Penderfynu i bwy y telir grant marwolaeth.

### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Mae'r awdurdod gweinyddu yn ymrwmo i dalu'r Grant Marwolaeth yn ôl y cyfarwyddiadau a dderbyniwyd trwy'r ffurflen 'Mynegiant o Ddymuniad Grant Marwolaeth'. Pan mae unrhyw amheuaeth am ddilysrwydd dymuniadau'r aelod ymadawedig; pan gaiff mynegiant o ddymuniad ei herio; neu pan mae'r mynegiant o ddymuniad yn afresymol, caiff y grant marwolaeth ei ryddhau i Ysgutorion yr Ystad.

### **Rheoliad 47(1)**

Dosrannu pensiwn plant ymhlith plant cymwys.

### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw arfer y disgrisiwn sydd ar gael o dan Reoliad 47(1) i ddosrannu pensiynau'n gyfartal rhwng y plant cymwys.

### **Rheoliad 47(2)**

Talu pensiwn plentyn i berson arall er lles y plentyn.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw arfer y disgrisiwn sydd ar gael o dan Reoliad 47(2) i dalu pensiwn plentyn sy'n daladwy i berson ifanc dan oed, i'r rhiant sy'n goroesi neu i warcheidwad cyfreithiol fel bo'n briodol.

### **Rheoliad 49(1)**

Penderfynu a ddylid cymudo pensiwn aelod bach o dan adran 166 Deddf Cyllid 2004 (gan gynnwys pobl a ymadawodd cyn 1 Ebrill 2008 neu aelodau Credyd Pensiwn lle yr oedd dyddiad gweithredol y Gorchymyn Rhannu Pensiwn cyn 1 Ebrill 2014 neu lle y mae dyddiad gweithredol y Gorchymyn Rhannu Pensiwn ar ôl 31 Mawrth 2014 ac nad oedd gan yr aelod a ddebydwyd unrhyw aelodaeth o Gynllun 2014 ar ôl 31 Mawrth 2014).

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw arfer y disgrisiwn sydd ar gael o dan Reoliad 49 i gymudo pob pensiwn bach hyd at yr uchafswm a ragnodir.

### **Rheoliad 49(1)**

Penderfynu a ddylid cymudo budd cyfandaliad marwolaeth bach o dan adran 168 Deddf Cyllid 2004.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw arfer y disgrisiwn sydd ar gael o dan Reoliad 49 i gymudo pob pensiwn bach hyd at yr uchafswm a ragnodir.

### **Rheoliad 50 & 157**

Penderfynu a ddylid cymudo buddion oherwydd afiechyd eithriadol (gan gynnwys aelodau Credyd Pensiwn lle yr oedd dyddiad gweithredol y Gorchymyn Rhannu Pensiwn cyn 1 Ebrill 2014 neu lle y mae dyddiad gweithredol y Gorchymyn Rhannu Pensiwn ar ôl 31 Mawrth 2014 ond nad oedd gan yr aelod a ddebydwyd unrhyw aelodaeth o Gynllun 2014 ar ôl 31 Mawrth 2014).

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw arfer y disgrisiwn sydd ar gael o dan Reoliad 50 i gymudo buddion aelod os yw'r cynghorydd meddygol wedi ardstio bod disgwyliad oes yr aelod yn llai na blwyddyn.

### **Rheoliad 60(5)**

A yw derbyn dewisiad ynghylch Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol yn ddarostyngedig i isafswm (cynghorwyr yn unig).

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw NA fydd yn arfer y disgrisiwn sydd ar gael o dan Reoliad 60(5).

### **Rheoliad 80(5)**

A ddylid mynnu bod unrhyw straen ar gostau'r gronfa'n cael eu talu ymlaen llaw gan yr awdurdod cyflogi, yn dilyn ymddeoliad gwirfoddol cynnar cynghorydd, neu dalu'n gynnar fudd-dal gohiriedig ar sail iechyd neu o 50 oed ymlaen a chyn 55 oed gyda chaniatâd y cyflogwr.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw y bydd yn mynnu bod cyflogwyr yn talu'n llawn gost y straen pensiwn sy'n codi o ymddeoliadau cynnar, cyn pen cyfnod na fydd fel arfer yn fwy na thair blynedd.



### **Rheoliad 81(1)**

Pa mor aml mae taliadau i gael eu gwneud gan gyflogwyr i'r gronfa (mewn perthynas ag aelodau cynghorwyr).

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw arfer y disgrisiwn sydd ar gael o dan Reoliad 81(1).

### **Rheoliad 81(5)**

Penderfynu ar ffurf y wybodaeth i gyd-fynd â thaliadau i'r Gronfa, a pha mor aml y dylid ei darparu (mewn perthynas ag aelodau cynghorwyr).

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw arfer y disgrisiwn sydd ar gael o dan Reoliad 81(5).

### **Rheoliad 82(1)**

A ddylid talu llog ar daliadau gan gyflogwyr sydd fwy na mis yn hwyr (mewn perthynas ag aelodau cynghorwyr).

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw arfer y disgrisiwn sydd ar gael o dan Reoliad 82 i godi llog ar gyfradd o 1% uwchben y gyfradd sylfaenol, wedi'i gompowndio'n chwarterol, mewn perthynas â chael cyfraniadau pensiwn a thaliadau buddion cyfunol yn hwyr.

### **Rheoliad 83(5)**

Ymestyn y cyfnod o amser i gyfalafu contract blynyddoedd a ychwanegwyd.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw arfer y disgrisiwn sydd ar gael o dan Reoliad 83(5) i farnu bod dewisiadau i gyfalafu contractau blynyddoedd a ychwanegwyd wedi cael eu gwneud ar y dyddiad ymddeol, os yw er budd yr aelod dan sylw.

### **Rheoliad 89(3)**

Gellir adennill cyfraniadau cyflogai sy'n ddyledus fel dyled syml neu drwy eu didynnu o fuddion.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Mae'r awdurdod gweinyddu yn ymrwymo i drin symiau o'r fath yn ddyledion syml a dalwyd trwy Anfoneb ar gyfer aelodau gweithredol. Fodd bynnag, ar gyfer aelodau y mae ganddynt hawl i dderbyn buddion yn syth, cymerir ôl-ddyledion allan o fuddion pensiwn.

### **Rheoliad 91(6)**

Amseriad taliadau cynnydd pensiwn gan gyflogwyr i'r gronfa.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw arfer y disgrisiwn sydd ar gael o dan Reoliad 91(6) i adennill Cynyddiadau Pensiwn y gellir ailgodi tâl amdanynt bob 12 mis ar y mwyaf, trwy gydgytundeb gyda'r cyrff dan sylw.

### **Rheoliad 95**

A ddylid talu, yn gyfan neu'n rhannol, y swm sy'n ddyledus i'r cynrychiolwyr personol (gan gynnwys unrhyw beth sy'n daladwy i'r aelod ymadawedig adeg ei f/marwolaeth) i'r:

- cynrychiolwyr personol, neu
- neu unrhyw un yr ymddengys fod ganddo hawl lesiannol i'r ystâd heb angen grant profiant / llythyrau gweinyddu os yw'r taliad yn llai na'r swm a ragnodir yn a6 o Ddeddf Gweinyddiad Ystadau (Mân Daliadau) 1965.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw arfer y disgrisiwn sydd ar gael o dan Reoliad 95, pan fo'r angen yn codi.

### **Rheoliad 97(10)**

Cymeradwyo cynghorwyr meddygol a ddefnyddir gan gyflogwyr.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Mae'r awdurdod gweinyddu wedi cymeradwyo'r meddygon iechyd galwedigaethol annibynnol a benodwyd gan Gyflogwyr y Cynllun, sy'n dal y gofynion o ran annibyniaeth a chymwysterau a fynnir gan ddeddfwriaeth

### **Rheoliad 106A(5)**

Y dyddiad y cyfrifir y buddion a ddangosir ar y datganiad buddion gohiriedig blynyddol iddo.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Bydd yr awdurdod gweinyddu'n defnyddio'r dyddiad cynyddu pensiwn ar gyfer y flwyddyn briodol.

### **Rheoliad 118**

Cadw Premiwm Cyfwerth â Chyfraniadau (CEP) lle y mae aelodau yn trosglwyddo allan.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw peidio ag arfer y disgresiwn hwn.

### **Rheoliad 147**

Gollwng y rhwymedigaeth i dalu Credyd Pensiwn.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw y bydd credydau pensiwn yn aros yn y Gronfa, oni fo'r aelod â chredyd pensiwn wedi dewis trosglwyddo.

## **Rheoliadau Llywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Gynnar) (Iawndal Disgresiynol) (Lloegr & Chymru) 2000 (fel y'u diwygiwyd)**

### **Rheoliad 31 (2)**

Cytuno i dalu iawndal blynyddol ar ran cyflogwr ac ailgodi'r taliadau ar y cyflogwr.

### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw arfer ei ddisgresiwn a thalu yn unol â'r disgrifiad.

## **Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1995 (fel y'u diwygiwyd)**

### **Rheoliad E8**

Penderfynu i bwy y telir grant marwolaeth.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Mae'r awdurdod gweinyddu yn ymrwmo i dalu unrhyw grant marwolaeth yn ôl y cyfarwyddiadau a dderbyniwyd trwy'r ffurflen 'Mynegiant o Ddymuniad Grant Marwolaeth'. Pan mae unrhyw amheuaeth am ddilysrwydd dymuniadau'r aelod ymadawedig; pan gaiff mynegiant o ddymuniad ei herio; neu pan mae'r mynegiant o ddymuniad yn afresymol, caiff y grant marwolaeth ei ryddhau i Ysgutorion yr Ystad.

### **Rheoliad F7**

A ddylid talu pensiynau priod am oes (yn hytrach na pheidio yn ystod unrhyw gyfnod o ail-briodi neu gydfyw).

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Yr awdurdod gweinyddu i arfer ei ddisgresiwn i ganiatáu talu pensiynau priod priodol am oes.

### **Rheoliad G11(1)**

Dosrannu pensiwn plant ymhlith plant cymwys.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw dosrannu'r pensiwn yn gyfartal ymysg y plant cymwys.

### **Rheoliad G11(2)**

Talu pensiwn plentyn i berson arall er lles y plentyn.

#### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Penderfyniad yr awdurdod gweinyddu yw arfer y disgresiwn sydd ar gael i dalu pensiwn plentyn sy'n daladwy i berson ifanc dan oed, i'r rhiant sy'n goroesi neu i warcheidwad cyfreithiol fel bo'n briodol.

## Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (2011 *nawm* 4)

### Adran 143

Penderfynu ar ddisgrifiadau aelodau (ac eithrio aelodau cyfetholedig) y bydd rhaid i awdurdod perthnasol dalu pensiwn iddynt neu ar eu cyfer (“pensiwn perthnasol”) a phenderfynu’r materion perthnasol y bydd rhaid i awdurdod perthnasol dalu pensiwn perthnasol ar eu cyfer.

Gall y Panel wneud penderfyniadau gwahanol ar gyfer awdurdodau o ddisgrifiadau gwahanol neu awdurdodau gwahanol o’r un disgrifiad.

Mae awdurdod yn “awdurdod perthnasol” os yw’n dod o fewn un o’r disgrifiadau canlynol:

- (a) awdurdod lleol;
- (b) cyngor cymuned;
- (c) awdurdod Parc Cenedlaethol (a sefydlwyd o dan adran 63 Deddf yr Amgylchedd 1995) ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru; ac
- (d) awdurdod tân ac achub yng Nghymru, hynny yw awdurdod yng Nghymru a sefydlwyd gan gynllun o dan adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno'n berthnasol iddo.

Mae “Aelod”, o ran awdurdod perthnasol, yn cynnwys:

- (a) maer etholedig yr awdurdod (o fewn ystyr adran 39(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000), a
- (b) aelod gweithredol etholedig o’r awdurdod (o fewn ystyr adran 39(4) y Ddeddf honno).

### Polisi wedi'i fabwysiadu:

Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol

## **Rheoliadau y Cynlluniau Pensiwn Cofrestredig (Addasu Rheolau'r Cynllun) 2011 (SI 2011/1791)**

### **Rheoliad 2**

Penderfynu a all yn gyfreithlon gynnig taliadau cynllun gwirfoddol (er mwyn penderfynu cyfreithlondeb trowch at baragraff 223 ymlaen y canllaw i Lwfans Blynyddol a gyhoeddwyd o dan dudalen 'Canllawiau a dogfennau enghreifftiol [www.lgpsregs.org](http://www.lgpsregs.org) ac, os felly, penderfynu o dan ba amgylchiadau (os o gwbl) y byddai'n gwneud hynny.

### **Polisi wedi'i fabwysiadu:**

Bydd yr awdurdod gweinyddu yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod.